Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth Llywodraeth Cymru i Aelwydydd

## Cymorth mewn argyfwng

- Cronfa Cymorth Dewisol: y flwyddyn ariannol hon rydym wedi dyrannu £38.5 miliwn o Gronfa Cymorth Dewisol i ddarparu cymorth brys i bobl mewn argyfwng ariannol. Gall y Gronfa Cymorth Dewisol ddarparu cymorth ariannol i helpu gyda chost biliau hanfodol, a grantiau hefyd i helpu pobl i fyw'n annibynnol. **Gwnewch gais ar-lein neu ffoniwch 0800 859 5924 (9.30am i 4.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener) am fwy o wybodaeth**.

- Sefydliad Banc Tanwydd: Mae ein cyllid ar gyfer y Sefydliad Banc Tanwydd wedi sicrhau y gall y sefydliad ddarparu lefel uwch o gymorth i aelwydydd yng Nghymru sy'n rhagdalu am eu tanwydd ac sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu. Mae hyn yn cynnwys talebau i'r rhai sydd â mesuryddion rhagdalu a help gyda chost tanwydd ar gyfer cartrefi oddi ar y grid. Mae'r Sefydliad wedi adeiladu rhwydwaith o fwy na 100 o bartneriaid atgyfeirio yng Nghymru sy'n gyfrifol am gynnal asesiad cychwynnol o'r angen cyn cyfeirio cwsmeriaid at' y Sefydliad am gymorth. **Am restr o bartneriaid atgyfeirio yn eich ardal cysylltwch â** help@fuelbankfoundation.org**. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn bartner atgyfeirio fel Aelod Seneddol (AS) o Lywodraeth y DU neu Aelod o Senedd (AS) Llywodraeth Cymru, cysylltwch â:** newpartners@fuelbankfoundation.org

- Trechu Tlodi Bwyd: Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi dyrannu £2m i gefnogi sefydliadau bwyd cymunedol i fynd i'r afael â thlodi bwyd a darparu ystod ehangach o wasanaethau i helpu unigolion ac aelwydydd i gael mwy o incwm a meithrin cadernid ariannol. Dylai sefydliadau bwyd cymunedol, sy'n ceisio cael cyllid i helpu i ateb y galw, siarad â'u hawdurdod lleol**. Mae llawer o sefydliadau bach a lleol yn darparu banciau bwyd. Mae ymddiriedolaeth Trussell yn darparu rhestr o'u** banciau bwyd fesul ardal.

- Cael cymorth: Rydym hefyd wedi creu tudalen ar wefan Llywodraeth Cymru **sy'n amlinellu'r cymorth sydd ar gael** i'r nifer fawr o bobl sy'n ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd: Cael help gyda chostau byw | LLYW. CYMRU

## Cymorth ar gyfer costau'r cartref

- Atal Digartrefedd: Mae cyllid ar gyfer mesurau Atal Digartrefedd Dewisol wedi'i ddyrannu i Awdurdodau Lleol i helpu unigolion a theuluoedd i atal neu liniaru

digartrefedd yn gyflym. Gallai hyn gynnwys talu ôl-ddyledion rhent, biliau'r cartref neu ddarparu gwarant rhent. Dylai pobl sydd eisiau cael gwybod mwy am sut i gael y cymorth hwn siarad â'u hawdurdod lleol. Mae ein cynllun Cymorth i Aros hefyd ar gael i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu morgais presennol. **Gallwch wneud cais ar-lein, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ganllawiau'r cynllun neu am lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â ni drwy ceisiadau@cymorthiaros.cymru**.

- Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Mae ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gael ym mhob un o ardaloedd yr awdurdodau lleol. Mae'r cynllun yn un sy'n dibynnu ar brawf modd ac mae'n darparu cymorth ariannol i bron i 260,000 o aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. O'r rhain, nid yw bron i 214,000 ohonynt yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. **Dylai pobl siarad â'u hawdurdod lleol i gael gwybod mwy am sut i gael y cymorth hwn**.

- Rhaglen Cartrefi Clyd: ein Rhaglen Cartrefi Clyd yw ein prif raglen ar gyfer mynd i'r afael â thanwydd. Gall y cynllun helpu pobl ar incwm isel na allant fforddio gosod mesurau effeithlonrwydd ynni neu atebion gwresogi carbon isel. Mae cyngor diduedd am ddim gwell ar gael hefyd i bob deiliad tŷ sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra. **Ffoniwch Nyth am ddim ar 0808 808 2244 (dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 6pm).**

**Cynyddu incymau i'r eithaf**

- Ymgyrchoedd i fanteisio ar fudd-daliadau: Rydym yn cyflwyno ein hymgyrch i fanteisio ar fudd-daliadau, sef Yma i Helpu sy'n cefnogi pobl i gael y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl i'w gael. Trwy Advicelink Cymru, gall Cyngor ar Bopeth a'u partneriaid roi cyngor a hefyd eich cyfeirio at asiantaethau eraill a allai eich helpu. **Dylai pobl sy'n dymuno siarad â chynghorydd ffonio 0800 702 2020, neu gallant siarad â chynghorydd ar-lein yma**.

- Credyd Pensiwn: eleni bydd y Taliad Tanwydd Gaeaf yn gysylltiedig â derbyn budd-daliadau prawf modd penodol. Yn sgil hynny, i lawer o bobl hŷn yng Nghymru, Credyd Pensiwn fydd yr allwedd iddynt gael mynediad i'w hawl i Daliad Tanwydd y Gaeaf a chymorth arall, gan gynnwys costau tai, help gyda'r Dreth Gyngor a thrwydded deledu am ddim i'r rhai sy'n 75 oed a throsodd. Mae'n bosibl gwneud cais am Gredyd Pensiwn a chael yr hawliad wedi'i ôl-ddyddio o hyd at 3 mis - cyn belled â bod hawl yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn golygu mai'r dyddiad diweddaraf i wneud cais a dal i fod yn gymwys i gael Taliad Tanwydd y Gaeaf yw 21 Rhagfyr 2024. Byddwn yn parhau i gefnogi'r nifer sy'n manteisio ar Gredyd Pensiwn yng Nghymru, gan gynnwys drwy weithgarwch wedi'i dargedu ychwanegol yr hydref hwn drwy ein hymgyrch Yma i Helpu. **Dylai pobl sy'n dymuno siarad â chynghorydd ffonio 0800 702 2020, neu gallant siarad â chynghorydd ar-lein yma.**

- Y Gronfa Gynghori Sengl: Yn ystod 2023-24, mae gwasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl wedi helpu mwy na 108,000 o bobl i fynd i'r afael â 380,300 o broblemau lles cymdeithasol. Cafodd y rhai a gafodd gymorth eu helpu i hawlio incwm ychwanegol gwerth £33.1 miliwn a chafodd dyledion gwerth £11.4 miliwn

eu dileu. **Dylai pobl sy'n dymuno siarad â chynghorydd ffonio 0800 702 2020, neu gallant siarad â chynghorydd ar-lein yma**

- Undebau Credyd: Mae ein cefnogaeth i undebau credyd yn eu helpu i gynnig cynilion a benthyciadau fforddiadwy i bobl yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu eu benthyca i bobl sydd â hanes credyd gwael a fyddai fel arall yn cael gwrthod benthyciad ac sydd mewn perygl o gael eu gyrru i fenthyca gan fenthycwyr arian anghyfreithlon. Dod o hyd i'ch undeb credyd agosaf.

**Cymorth gyda chostau'r diwrnod ysgol**

- Bwyd mewn Ysgolion: Rydym wedi ymrwymo i'n rhaglen prydau ysgol am ddim, gan gynnwys ehangu darpariaeth prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cynradd. Dylai pobl siarad â'u hawdurdod lleol i gael gwybod mwy am sut i gael y cymorth hwn. Mae'n bwysig bod y teuluoedd sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim ar gyfer disgyblion cynradd hefyd yn cofrestru eu bod yn gymwys, gan y bydd hyn yn arwain at gyllid Grant Datblygu Disgyblion ychwanegol ar gyfer yr ysgol.

- Grant Hanfodion Ysgolion: Gall mwy o deuluoedd nawr elwa ar gymorth ariannol ar gyfer cost gwisgoedd ysgol a chit ysgol drwy ein Grant Hanfodion Ysgolion. Mae'r Grant wedi helpu i ddileu'r pryder ynghylch prynu gwisg ysgol ac offer i lawer o deuluoedd. **I gael rhagor o wybodaeth am bwy sy'n gymwys neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn uniongyrchol**.

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg: Mae ein Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn helpu dysgwyr o deuluoedd incwm isel i aros mewn addysg a hyfforddiant gyda lwfans o £40 yr wythnos. **Dylai pobl sy'n dymuno cael y cymorth hwn siarad â'u hawdurdod lleol**.

**Helpu pobl gyda chymorth pellach**

- Lleoedd diogel a chynnes: yn y flwyddyn ariannol hon rydym wedi dyrannu £1.5 miliwn arall i barhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu lleoedd diogel a chynnes yn y gymuned leol lle gall pobl o bob oed fynd i gael mynediad at wasanaethau a chyngor, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol neu gael paned a chwmni. Mae'r cyllid hwn, a ddyrennir drwy'r awdurdodau lleol, yn ychwanegu at y ddarpariaeth sydd eisoes ar gael ledled Cymru drwy'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a ffydd, gan alluogi sefydliadau i agor eu cyfleusterau am gyfnod hirach, eu hagor yn amlach neu ddarparu pryd o fwyd a lluniaeth i'r rhai sy'n defnyddio'r cyfleusterau. **Dylai sefydliadau cymunedol sy'n ceisio cyllid i gefnogi lle cynnes siarad â'u Hawdurdod Lleol. Gall pobl sydd am fynd i le cynnes ger lle maent yn byw naill ai gysylltu â'u Hawdurdod Lleol, y mae gan lawer ohonynt gyfeiriadur eu hunain o leoedd cynnes, neu chwilio'r** map ar-lein **ar wefan Warm Welcome Spaces.**

- Hyfforddiant i weithwyr rheng flaen Rydym yn ariannu rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr rheng flaen, fel eu bod yn fwy abl i gefnogi defnyddwyr eu gwasanaethau i gael gafael ar yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl i'w

gael. Mae'r sesiynau hyfforddi yn cael eu diweddaru i gynnwys y cymorth diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a chynlluniau eraill. Mae'r contract i gyflwyno'r hyfforddiant hwn wedi'i roi allan i dendr ar hyn o bryd. **Gall pobl sy'n dymuno gwneud yr hyfforddiant hwn gael gwybod y sefyllfa ddiweddaraf drwy e-bostio blwch post Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru:** TacklingPovertyAndSupportingFamilies@gov.wales

- Hyfforddiant Arweinwyr Arian: Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau ar ei gwaith lles ariannol. Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau wedi datblygu rhaglen datblygu proffesiynol barhaus, Arweinwyr Arian, sy'n cynnwys e-ddysgu ac sydd wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau ac unigolion i siarad yn hyderus am arian gyda'u cwsmeriaid a rhoi arweiniad diogel ac effeithiol**. Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, e-bostiwch:** contact@maps.org.uk **neu ffoniwch: 01159 659570**

- Cynllun Cychwyn Iach: Os ydych dros 10 wythnos yn feichiog neu os oes gennych blentyn o dan 4 oed, efallai y bydd gennych hawl i gael help i brynu bwyd, llaeth a fformiwla babanod iach. Os ydych chi'n gymwys, anfonir cerdyn Cychwyn Iach atoch y gallwch ei ddefnyddio mewn siopau yn y DU sy'n derbyn Mastercard®. Byddwch yn cael arian ychwanegol ar eich cerdyn Cychwyn Iach bob 4 wythnos.

  Byddwch yn cael:
  - £4.25 bob wythnos yn ystod eich beichiogrwydd o'r 10fed wythnos ymlaen
  - £8.50 bob wythnos i blant o'u genedigaeth hyd at 1 mlwydd oed
  - £4.25 bob wythnos i blant rhwng 1 a 4 oed

Gellir defnyddio’r cardiau i brynu:
- llaeth buwch hylif plaen
- ffrwythau a llysiau ffres, wedi'u rhewi a rhai tun
- codlysiau ffres, sych a tun
- llaeth fformiwla babanod syn seiliedig ar laeth buwch

Gallwch hefyd ddefnyddio'ch cerdyn i gasglu:
- fitaminau Cychwyn Iach – mae'r rhain yn eich cefnogi yn ystod beichiogrwydd a bwydo ar y fron
- diferion fitamin ar gyfer babanod a phlant ifanc – mae'r rhain yn addas o'u genedigaeth hyd at 4 oed

I wirio a ydych yn gymwys a gwneud cais, ewch i: Cael help i brynu bwyd a llaeth (Cychwyn Iach)